Pecyn Dogfennau Cyhoeddus

Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru

Dydd Llun, 11 Tachwedd 2013 at 10.00 am
Bodlondeb, Conwy

RHAGLEN

1. **Penodi Cadeirydd**

2. **Ymddiheuriadau am absenoldeb**

3. **Datgan Cysylltiad: Cod Ymddygiad Llywodraeth Leol**

   Atgoffir yr Aelodau bod yn rhaid iddynt ddatgan **bodolaeth** a **natur** eu cysylltiad personol a ddatganir.

4. **Materion Brys**

   Rhybudd o faterion, ym marn y Cadeirydd, y dylid eu hystyried yn y cyfarfod fel mater brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

5. **Cofnodion** (Tudalennau 3 - 13)

6. **Cyflwyniad gan y Prif Gwnstabl ynglŷn â phlismona yn y dyfodol yng Ngogledd Cymru.**

7. **Ystyried adroddiadau gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.**

   a) **Diweddariad Cyfnodol gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd** (Tudalennau 14 - 19)

   b) **Diweddariad ar Gyllideb 2013/14** (Tudalennau 20 - 23)

   c) **Amserlen ar gyfer Praesept Plismona arfaethedig 2014/15** (Tudalennau 24 - 29)

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

8. Ystyried adroddiadau gan yr Awdurdod Cynnal

a) Gweithdrefn Gwyno (Tudalennau 30 - 33)

b) Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol ar gyfer Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru (Tudalennau 34 - 36)

9. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf:

Dydd Llyn, 16 Rhagfyr 2013 @ 10.00 am

Aelodau'r Panel

Cyng Glenys Diskin (Cadeirydd Dros Dro)	Cyngor Sir y Fflint
Cyng Amanda Bragg	Cyngor Sir y Fflint
Cyng Philip C. Evans Y.H.	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Cyng Julie Fallon	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Cyng William T. Hughes	Cyngor Sir Ynys Mon
Cyng Charles Jones	Cyngor Gwynedd
Cyng Colin Powell	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Cyng Ian Roberts	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Cyng Bill Tasker	Cyngor Sir Ddinbych
Cyng Gethin Williams	Cyngor Gwynedd
Patricia Astbury	Aelod Annibynnol Cyfetholedig
Timothy Rhodes	Aelod Annibynnol Cyfetholedig

PANEL HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

Dydd Gwener, 20 Medi 2013, am 1.00 pm
Bodlondeb, Conwy

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Glenys Diskin (Cadeirydd Dros Dro)

Y Cynghorwyr: Pat Astbury, Amanda Bragg, William T Hughes, Charles Jones, Tim Rhodes a Gethin Williams

Hefyd yn bresennol: Prif Arolygydd Jane Banham (Heddlu Gogledd Cymru), Anna Humphreys (Prif Weithredwr, Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd), Kate Jackson (Prif Swyddog Cyllid, Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd), Winston Roddick (Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru)

Swyddogion: Ken Finch (Cyfarwyddwr Strategol (Democrataidd, Rheoleiddio a Chefnogi), Dawn Hughes (Uwch Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor), Richard Jarvis (Cyfreithiwr) a Ffion Wynne (Cyfieithydd)

52. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Philip C. Evans Y.H. (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Colin Powell (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam) a Bill Tasker (Cyngor Sir Ddinbych).

53. DATGAN CYSYLLTIAD: COD YMDDYGIAD LLYWODRAETH LEOL

Dim.

54. NEWID MEWN AELODAETH

Roedd y Cynghorydd William Knightly wedi ymddiswyddo fel Cadeirydd Panel yr Heddlu a Throsedd yn ddiweddar oherwydd problemau iechyd. Cydnabyddodd y Panel sgiliau arwain rhagorol a'r gwaith a wnaeth y Cynghorydd Knightly yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Gofynnodd y Panel am lythyr i'w anfon i'r Cynghorydd Knightly gan ddiolch iddo am y gwaith ardderchog a wnaeth fel Cadeirydd ac i ddymuno'n dda iddo ar gyfer y dyfodol.

Hysbysodd y Cyfarwyddwr Strategol (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy) fod y Cynghorydd Terry Evans wedi ymddiswyddo ac y byddai Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn penodi rhywun yn ei le yn fuan.

55. **COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a gynhaliwyd 4 Mehefin 2013 i'w cymeradwyo.

PENDERFYNWYD-

Cymeradwyo cofnodion cyfarfod Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 4 Mehefin 2013 fel cofnod cywir.

56. **PENODI CADEIRYDD**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Strategol (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy) adroddiad yn hysbysu Panel yr Heddlu a Throsedd o ymddiswyddiad y Cadeirydd ac yn argymell y dylid gohirio penodi Cadeirydd nes y cyfarfod nesaf, oherwydd bod angen derbyn cymeradwyaeth y Swyddfa Gartref ar gyfer penodi Aelodau etholedig i Banel yr Heddlu a Throsedd.

Er bod Cylch Gorchwyl Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru yn nodi y dylid penodi Cadeirydd newydd yn y cyfarfod nesaf ac y caiff ei ddewis o blith Aelodau'r Panel, y tro hwn byddai Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru yn manteisio o ohirio'r penodiad hwn, nes bod gan y Panel nifer lawn o Aelodau i ddewis ohonynt.

PENDERFYNWYD-

Bod Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru yn gohirio penodi Cadeirydd tan y cyfarfod nesaf ar 11 Tachwedd 2013, a bod y Cynghorydd Glenys Diskin, yr Is-Gadeirydd presennol, yn dod yn Gadeirydd Dros Dro yn y cyfamser.

57. **GWRANDAWIAD CADARNHAU AR GYFER DIRPRWY GOMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDD (I DDILYN)**

Gohiriwyd yr eitem hon a thrafodwyd ymhellach o dan Gofnod 58 - Diweddariad Cyfnodol gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd.

58. **DIWEDDARIAD GAN GOMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDD (GAN GYNNWYS DIWEDDARIAD AR GYNLLUN YR HEDDLU A THROSEDD A CHYNLLUN Y DDALFA) (I DDILYN)**

Cyflwynodd Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd ddiweddariad cyfnodol i'r Aelodau, oedd yn cynnwys adroddiad cynnydd yn erbyn darpariaeth Panel Heddlu a Throsedd.

Cydnabu'r Comisiynydd ymddeoliad y Cynghorydd William Knightly a'r golled i'r Panel o'r herwydd.

Cydnabu'r Comisiynydd y gefnogaeth a roddodd y Cynghorydd Knightly iddo a nododd bod y Panel wedi bod yn ffodus iawn o gael eu cadeirio gan y Cynghorydd Knightly.

Amlygodd Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd meysydd canlynol yr adroddiad:

Carchar Gogledd Cymru

Byddai carchar newydd yn cael ei adeiladu yn Wrecsam gan ddarparu nifer o fuddiannau i Ogledd Cymru a gwella system Cyfiawnder Troseddol yn yr ardal. Cydnabu'r Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd bod y cynigion ar gyfer y carchar wedi derbyn cefnogaeth gan yr holl grwpiau gwleidyddol.

Y Dirprwy Prif Gwnstabl

Roedd Mr Gareth Pritchard wedi'i benodi'n Ddirprwy Prif Gwnstabl yn ddiweddar. Er mai penodiad y Prif Gwnstabl ydoedd, roedd Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd wedi bod yn rhan o'r panel cyfweld. Llongyfarchodd y Panel Mr Pritchard.

Trosglwyddiadau Cam 2

Roedd cynigion ar gyfer yr ymagwedd arfaethedig i baratoi cynllun trosglwyddo wedi'i gyflwyno'n ffurfiol i'r Ysgrifennydd Cartref i'w arnodi. Amcan y cynllun oedd adnabod pa staff oedd i'w cyflogi gan y Prif Gwnstabl, a pha staff fyddai'n parhau i gael eu cyflogi gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd.

Hysbyswyd y Panel yr Heddlu a Throsedd bod y Prif Gwnstabl a Chomisiynydd yr Heddlu a Throsedd wedi cytuno gan eithrio'r staff oedd yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol o swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd, y byddai holl staff yr heddlu yn cael eu trosglwyddo i gyflogaeth y Prif Gwnstabl.

Diolchodd Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd i Unsain (Undeb Llafur cydnabyddedig ar gyfer staff yr heddlu), oedd yn cefnogi'r cynllun trosglwyddo.

Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd

Hysbyswyd Panel yr Heddlu a Throsedd fod yr ymgeisydd arfaethedig ar gyfer Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd wedi penderfynu tynnu'n ôl o'r broses oherwydd amgylchiadau personol.

Er mwyn symud ymlaen, cynghorodd Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd y Panel ei fod yn bwriadu ail-hysbysebu ar gyfer Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd a dechrau'r broses unwaith eto.

Gan y byddai'r broses yn cymryd tua 4/5 mis, hysbysodd y Comisiynydd oherwydd y cynnydd parhaus yn y llwyth gwaith, ei fod yn cynnig llenwi'r swydd dros dro.

Adroddodd Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd y byddai'n ymgynghori ar y penodiad dros dro hwn ac y byddai'n rhaid i'r Panel gynnal gwrandawiad cadarnhau i arnodi'r penodiad.

Holodd y Panel a oedd unrhyw ymgeiswyr eraill yn addas; ond oherwydd yr amser sydd wedi mynd heibio ers y broses ymgeisio, teimla Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd y byddai'n fuddiol ail-hysbysebu'r swydd.

Roedd y Panel yn cefnogi ymagwedd y Comisiynydd mewn perthynas â'r penodiad hwn.

Cynnydd ar gyflawni Cynllun yr Heddlu a Throsedd

Roedd yr Heddlu yn parhau i flaenoriaethu gweithgareddau i leihau troseddau ac roedd niferoedd y troseddau gyda dioddefwyr a gofnodwyd wedi gostwng. Hysbyswyd Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru o fis Awst 2013, roedd newid o -4.6% o flwyddyn i flwyddyn. Adroddodd y Comisiynydd mai Gogledd Cymru oedd a'r gostyngiad gorau yn lefel y troseddau yn y wlad.

Cynnydd Cyffredinol

Cynghorodd Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd y Panel ei fod yn bwriadu adolygu'r strwythurau yn ei swyddfa, ac y byddai'n fuddiol ar gyfer trosglwyddiadau Cam 2 ac y byddai'n gyfle i adolygu trefniadau llywodraethu hefyd.

Hysbyswyd y Panel hefyd fod y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn cynnal adolygiad o drefniadau atebolrwydd yr heddlu yng Nghymru a Lloegr.

Hysbyswyd yr aelodau hefyd fod Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn bwriadu cynnal gweithdai ar gyfer y Panel mewn perthynas â gwaith y Comisiynydd.

Mewn perthynas â chynllunio ariannol ar gyfer 2014/15, ar ôl derbyn y manylion am grant yr heddlu, byddai Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn dechrau gwerthuso dewisiadau'n fanwl er mwyn paratoi ar gyfer gosod cyllideb.

Cyfeiriwyd at ddrafft arolwg cyhoeddus oedd yn cael ei orffen gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd, oedd â'r bwriad o ganfod sut yr oedd pobl Gogledd Cymru yn deall materion troseddau a diogelwch cyhoeddus. Byddai'r arolwg yn cael ei gyhoeddi ar wefan Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd, gofynnodd y Panel am gopïau caled ar gyfer aelodau'r gymuned nad oedd yn gallu cael mynediad at y rhyngrwyd.

Cadarnhaodd y Prif Weithredwr i Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd y byddai copïau ar gael mewn llyfrgelloedd ac y byddai arolwg dros y ffôn yn cael ei wneud hefyd. Byddai canlyniadau'r arolwg yn cael eu cyflwyno i Banel yr Heddlu a Throsedd yn hwyrach yn y flwyddyn.

59. **DIWEDDARIAD AR YR ADOLYGIAD O WARIANT A'R CYNLLUN ARBEDION**

Darparodd y Prif Swyddog Cyllid ddiweddariad i Banel yr Heddlu a Throsedd am gynlluniau arbedion Heddlu Gogledd Cymru, yn dilyn cyhoeddiad y Llywodraeth ynglŷn â chynlluniau gwariant ar gyfer 2015/16.

Y rhagamcan yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig, a gyflwynwyd i Banel yr Heddlu a Throsedd ym mis Ionawr 2013, oedd y byddai toriad o 3% yn 2014/15 a 2015/16. Fodd bynnag, yn dilyn adolygiad gwariant a'r wybodaeth a dderbyniwyd o'r Swyddfa Gartref, y gostyngiad yng nghyfanswm Cyllid yr Heddlu ar gyfer 2014/15 fyddai 3.3% a 3.2% yn 2015/16. Roedd hyn yn gyfanswm o £0.375m ychwanegol, a byddai'n rhaid torri hyn o'r cyllidebau dros y ddwy flynedd nesaf.

Roedd drafft cynlluniau arbedion ar gyfer 2014/15 a 2015/16 wedi'u hadolygu ac er bod modd cyflawni'r arbedion a gynlluniwyd ar gyfer 2014/15, roedd yr arbedion ar gyfer 2015/16 mewn perygl o beidio â chael eu cyflawni ar hyn o bryd.

Hysbyswyd Panel yr Heddlu a Throsedd hefyd fod lefel uchel o ansicrwydd am 2016/17, ond os cytunir ar y newidiadau i Yswiriant Gwladol (yn gysylltiedig â chyfraniadau pensiwn), yna byddai'n rhaid cael toriad pellach o £2.7m yn ogystal â'r £1.9m o arbedion cyfredol.

Cyfeiriwyd at y rhagdybiaethau yn yr adroddiad a gofynnwyd i'r Prif Swyddog Cyllid i gylchredeg beth oedd ystyr y canrannau mewn arian.

Cyfeiriwyd hefyd at adolygiad y fformiwla, a nodwyd fel risg yn yr adroddiad. Cynghorodd y Comisiynydd y Panel y gallai'r sylwadau, a wnaed i'r Llywodraeth gael effaith andwyol ar Ogledd Cymru, petaent yn cael eu cytuno. Byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i Banel yr Heddlu a Throsedd pan fyddai'r trafodaethau ynglŷn â'r adolygiad wedi dod i ben.

PENDERFYNWYD-

(a) Nodi'r cynnydd o £0.375m yn y toriadau sydd eu hangen, yn dilyn Adolygiad Gwariant a drafft y cynlluniau arbedion ar gyfer 2014/15 a 2016/17.

(b) **Bod y Prif Swyddog Cyllid yn cylchredeg y symiau o arian cyfansymiol ar gyfer y rhagdybiaethau ym mharagraff 4.3 yr adroddiad.**

60. **DIWEDDARIAD AR GYLLIDEB 2013/14**

Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyllid ddiweddariad i Banel yr Heddlu a Throsedd am gyllidebau heddlu ar gyfer Gogledd Cymru ar gyfer chwarter cyntaf 2013/14.

Cyfanswm y rhagamcan i ddiwedd y flwyddyn oedd £1.7m o dan wariant ar hyn o bryd. Prif gyfranwyr i'r ffigwr hwn oedd cyflog, lwfansau, TG ac incwm.

Mewn perthynas â chyflog yr heddlu, hysbyswyd Panel yr Heddlu a Throsedd fod polisi recriwtio Swyddogion yn gynnar, er mwyn cael swyddogion hyfforddedig yn lle swyddogion sy'n ymddeol, yn parhau. Roedd y 51 swyddog ychwanegol, a gytunwyd wrth osod y gyllideb yn cynyddu nifer y rhai oedd i'w recriwtio a gan nad oedd y 51 o swyddogion wedi'u recriwtio ar ddiwrnod cyntaf y gyllideb roedd rhagamcan ar hyn o bryd y byddai tanwariant o £0.4m o'r gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn.

Rhagamcannir mai cryfder y Sefydliad fyddai 42 swyddog drosodd, ond 12 swyddog yn is o ran swyddogion y gellir eu defnyddio erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Cadarnhaodd y Prif Swyddog Cyllid er bod y gyllideb yn cynnwys cyllid ar gyfer y 51 o swyddogion ychwanegol, y 42 o swyddogion, y byddai'r Sefydliad dros ei chryfder ar ddiwedd y flwyddyn, nid oedd yn cynnwys y 51 o swyddogion i gyd, gan nad oedd y cyfan wedi'u recriwtio hyd yn hyn.

Mewn perthynas â'r Gyllideb Cyfalaf, hysbyswyd Panel yr Heddlu a Throsedd fod y gwariant yn isel ar gyfer y chwarter cyntaf. Fodd bynnag roedd y ddau brif brosiect yn Rhaglen yr Ystadau yn cynnwys yr adeilad newydd yn Llangefni a dechrau'r datblygiadau yn Wrecsam. Roedd y gwaith adeiladu'n datblygu'n dda yn Llangefni ac roedd Cynllun Busnes ar gyfer Wrecsam wedi'i gytuno a byddai'r gwariant yn dechrau unwaith y bydd safle wedi'i brynu.

Adroddodd y Prif Weithredwr y byddai cyhoeddiadau ynglŷn â Wrecsam i ddod yn fuan.

PENDERFYNWYD-
Dylid nodi'r adroddiad.

61. **CRYNODEB O'R CWYNION A DDERBYNIWYD**

Cyflwynodd Cyfarwyddwr Strategol (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy) adroddiad, oedd yn darparu crynodeb o'r cwynion a dderbyniwyd hyd yn hyn i Banel yr Heddlu a Throsedd.

Hysbyswyd y Panel fod tri chŵyn wedi'u derbyn hyd yn hyn, ac roedd crynodeb ohonynt yn Atodiad 1 yr adroddiad.

O ran cwynion a dderbyniodd Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd, adroddodd y Cyfarwyddwr Strategol y byddai proses yn cael ei llunio gyda Phrif Weithredwr Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd ar gyfer rheoli cwynion sy'n cael eu cofnodi.

Eglurodd y Cyfarwyddwr Strategol i'r Panel fod y cwyn a dderbyniwyd ar 07/03/13 yn parhau i gael ei archwilio ac y byddai adolygiad terfynol gan Gomisiwn Cwynion Gwybodaeth yr Heddlu.

O ran y ddau gŵyn arall, adroddodd y Cyfarwyddwr Strategol y byddai'n ymgynghori yn fuan gydag aelodau priodol y Panel (yn unol â Gweithdrefn Cwynion) er mwyn cael datrysiad lleol o'r cwynion hyn. Oherwydd bod y Cadeirydd wedi ymddiswyddo, a bod gofyniad i ymgynghori gyda thri

Aelod o'r Panel, cytunwyd y byddai'r Cynghorydd Gethin Williams yn cael ei benodi fel Aelod dros dro ar Bwyllgor Cwynion nes y penodir Cadeirydd.

PENDERFYNWYD-

(a) Bod y Panel yn nodi'r cwynion a dderbyniwyd a'r camau gweithredu a wnaed i ddatrys y cwynion.

(b) Bod y Cynghorydd Gethin Williams yn Aelod dros dro ar Bwyllgor Cwynion nes y bydd Cadeirydd wedi'i benodi.

62. **CYFLWYNIAD GAN Y PRIF AROLYGYDD JANE BANHAM AM RECRIWTIO'R HEDDLU**

Derbyniodd Panel yr Heddlu a Throsedd gyflwyniad gan y Prif Arolygydd Jane Banham, o Heddlu Gogledd Cymru ynglŷn â recriwtio'r heddlu.

Roedd y cyflwyniad gyda'r teitl 'Cynyddu effeithlonrwydd heddlu'r rheng flaen yng Ngogledd Cymru', yn amlygu'r meysydd canlynol:

- Amserlen Recriwtio – mae'r broses gyfredol yn cymryd 41 wythnos; ond roedd yr Heddlu yn gobeithio gostwng hyn i 37 wythnos oherwydd recriwtio ar-lein.
- Hyfforddiant Cychwynnol – Roedd cwrs hyfforddiant IPLDP wedi'i rannu'n bedwar cam. Roedd Camau 1-3 yn cynnwys y 23 wythnos gyntaf o weithgarwch dosbarth, gan gynnwys: Cyflwyniad i wasanaethau'r heddlu a theulu ehangach yr heddlu; Gweledigaeth, gwerthoedd ac amcanion strategol yr Heddlu; Cynnwys y gymuned; a gwybodaeth, y gyfraith a'r weithdrefn. Cam 4 oedd cyfnod tiwtora 10 wythnos.
- Roedd hyfforddiant ychwanegol yn cynnwys 3 wythnos o gyrsiau hyfforddiant gyrru a datblygu (2 x 2 wythnos) ar gyfer materion pellach, megis troseddau rhywiol, llwyddo i gael hyfforddiant tystiolaeth gorau, a hyfforddiant safle'r drosedd.
- Derbyn ym mis Mawrth - 24 wedi'u recriwtio, oedd yn awr gyda'u Cwnstabliaid Tiwtora, gyda'r heddlu lleol.
- Derbyn ym mis Gorffennaf – 13 wedi'u recriwtio, ar hyn o bryd yn Llandudno ac ar wythnos 16 o'u hyfforddiant yn y dosbarth.
- Derbyn ym mis Medi - 18 wedi'u recriwtio ac wedi dechrau'r hyfforddiant ar 16/09/13.

Derbyniodd y Panel wybodaeth fod hyfforddiant cychwynnol cenedlaethol yn 21 wythnos, ond yng Ngogledd Cymru roedd yn 23 wythnos er mwyn cynnwys yr iaith Gymraeg a darparu hyfforddiant ychwanegol ynglŷn â rheoli achosion.

Hysbysodd y Prif Arolygydd Banham, y Panel o gyflogaeth arfaethedig y 51 o swyddi a ariannwyd fel a ganlyn:

- Rhanbarth y Dwyrain: 23 o Swyddogion (9 Gogledd Sir y Fflint; 2 De Sir y Fflint; 2 patrôl gwledig Wrecsam; 9 patrôl tref Wrecsam; 1 Tîm Troseddu Ieuenctid)
- Rhanbarth y Canolbarth: 6 Swyddog (2 swyddog bob rhanbarth)

- Rhanbarth y Gorllewin: 8 (2 Ynys Môn; 2 Gogledd Gwynedd; 4 De Gwynedd)

- 6 Ditectif Cwnstabl yn cael eu cyflogi i'r Tîm Amethyst.

- Byddai 3 swyddog yn Swyddogion Cyswllt / Troseddau Gwledig mewn Iwnifform

- Byddai 3 swyddog yn Swyddogion Cam-drin Domestig mewn Iwnifform a dillad arferol.

- Byddai 2 o swyddogion yr heddlu mewn iwnifform yn gwneud gwaith yr heddlu sy'n cael ei arwain gan wybodaeth er mwyn atal a chanfod troseddau.

Hysbyswyd y Panel bod swyddi'r 51 o swyddogion yn cyd-fynd â blaenoriaethau'r Comisiynydd yng Nghynllun Heddlu a Throsedd. Adroddodd y Prif Arolygydd bod cynnig i dderbyn 5 gwaith ym mis 2014.

Cyfeiriwyd at sgiliau llythrennedd, a chadarnhaodd y Prif Arolygydd bod profion sillafu yn rhan o'r broses. Roedd gan Ogledd Cymru broses asesu llym, sy'n cynnwys cyfweliad unigol (nid oedd rhai Lluoedd yn cynnal cyfweliadau) ac roedd marc pasio'r asesiad yn 60% (yn genedlaethol 50% oedd y marc pasio).

Cyfeiriwyd hefyd at y nifer o Swyddogion oedd yn cael eu lleoli yn y Dwyrain, oedd gryn dipyn yn uwch na'r rhai oedd yn cael eu lleoli i'r Gorllewin. Hysbyswyd y Panel y byddai'r Swyddogion yn cael eu lleoli mewn ardaloedd yn ôl y galw, gyda Rhanbarth y Dwyrain yn cymryd hyd at 38% o amser y Swyddogion, oherwydd ymddygiad gwrthgymdeithasol. Fodd bynnag, nodwyd y byddai Rhanbarth y Gorllewin yn cael Swyddogion Troseddau Gwledig a Swyddogion Cam-drin Domestig hefyd.

Cynghorodd y Prif Arolygydd hefyd y byddai'r adnoddau yn cael eu symud o gwmpas ardal yr Heddlu, yn ôl y galw.

Adroddodd y Comisiynydd hefyd mai penderfyniad y Prif Gwnstabl yw lle i leoli'r Swyddogion, yn ôl y galw. Roedd gwahanol anghenion yn y gwahanol ardaloedd, felly roedd Swyddogion Troseddau Gwledig wedi'u lleoli yn y Gorllewin er mwyn sicrhau bod yr heddlu yn amlwg yn yr ardaloedd gwledig.

Er bod yr Aelodau o'r Gorllewin yn cydnabod cynigion y Prif Gwnstabl a'r gwaith a wnaed yn yr ardaloedd gwledig, roedd pryderon ynglŷn â'r niferoedd o bobl oedd yn dod i'r ardal, yn enwedig yn ystod misoedd yr haf.

Eglurodd y Prif Arolygydd i'r Panel bod Ditectif Cwnstabl wedi'i benodi i ddelio â throseddau ar y we.

Diolchodd Panel yr Heddlu a Throsedd i'r Prif Arolygydd Banham am gyflwyniad llawn gwybodaeth.

63. **YSTYRIED RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL PANEL YR HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU**

Cyflwynodd Uwch Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy) Rhaglen Waith i'r Dyfodol Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.

PENDERFYNWYD-

Cymeradwyo'r Rhaglen Waith i'r Dyfodol.

64. **CADARNHAU'R CYFARFODYDD I DDOD**

Hysbyswyd yr Aelodau am gyfarfodydd sydd i ddod ar gyfer Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru fel a ganlyn:

Dydd Llun 11 Tachwedd, 2013 am 10.00am
Dydd Llun, 16 Rhagfyr 2013 am 2.00pm
Dydd Llun, 20 Ionawr 2014 am 10.00am
Dydd Llun 17 Mawrth 2014 am 2.00pm
Dydd Llun, 2 Mehefin 2014 am 10.00am

65. **ADBORTH O DDIGWYDDIAD HYFFORDDI A DATBLYGU CLLLC (Y CYNGHR. COLIN POWELL/AMANDA BRAGG)**

Darparodd y Cynghorydd Amanda Bragg adborth o Ddigwyddiad Hyfforddi a Datblygu CLILC yng Nghaerdydd ar 15 Gorffennaf 2013.

Roedd y digwyddiad wedi darparu cyfle i Aelodau'r Panel gael rhannu profiadau a gwersi a ddysgwyd hyd yn hyn.

Hysbyswyd y Panel fod y diwrnod wedi'i rannu'n gyflwyniadau a gweithdai. Cafwyd cyflwyniadau gan gynrychiolwyr o'r Swyddfa Gartref, Comisiwn Cwynion Gwybodaeth yr Heddlu a'r CLILC.

Roedd y gweithdai'n canolbwyntio ar beth oedd yr Aelodau wedi'i brofi hyd yn hyn fel Paneli newydd eu ffurfio ac roedd yr ail weithdy yn canolbwyntio ar symud ymlaen.

Roedd awgrymiadau o'r gweithdy cyntaf yn cynnwys gwahodd y Prif Gwnstabl i fynychu'r cyfarfodydd i ddarparu diweddariad ar Gynllun yr Heddlu a Throsedd; sefydlu cyfarfodydd cyn-banel; a'r posibilrwydd o sefydlu is-bwyllgorau i graffu gwahanol feysydd y gweithgareddau.

Teimla'r Cynghorydd Bragg y byddai'n fuddiol iawn petai cymaint o Aelodau'r Panel â phosibl yn mynychu sesiynau hyfforddi yn y dyfodol, gan eu bod yn offer gwerthfawr i'r Panel yn ystod y cyfnod cychwynnol a chyfnewidiol hwn gyda Phanel yr Heddlu a Throsedd.

(Daeth y cyfarfod i ben am 2.30 pm)

PANEL HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

Dydd Gwener, 4 Hydref 2013, am 2.00 pm
Ystafell Rhuddlan - Venue Cymru

YN BRESENNOL:	Y Cynghorydd Glenys Diskin (Cadeirydd Dros Dro)
	Y Cynghorwyr: Amanda Bragg, Glenys Diskin, Philip C. Evans Y.H., William T Hughes, Charles Jones, Colin Powell, a Gethin Williams
	Pat Astbury a Tim Rhodes (Aelodau Cyfetholedig Annibynnol)
Swyddogion:	Dawn Hughes (Uwch Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor) a Richard Jarvis (Cyfreithiwr)
Hefyd yn bresennol:	Winston Roddick CB QC (Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd) a Julian Sandham.

66. **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Bill Tasker a Ken Finch (Cyfarwyddwr Strategol - Democratiaeth, Rheoleiddio a Chefnogi).

67. **DATGAN CYSYLLTIAD: COD YMDDYGIAD LLYWODRAETH LEOL**

Nododd y Cynghorydd Philip C. Evans Y.H., y Cynghorydd Charles Jones a Pat Astbury gysylltiad personol, nad yw'n rhagfarnu yng nghofnod 69 – Gwrandawiad Cadarnhau ar gyfer y Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Dros Dro oherwydd eu bod yn adnabod yr ymgeisydd mewn sefyllfa broffesiynol yn unig.

68. **MATERION BRYS**

Dim.

69. **GWRANDAWIAD CADARNHAU AR GYFER DIRPRWY GOMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDD DROS DRO**

Daeth Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ynghyd i ystyried enwebiad Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd ar gyfer swydd Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd dros dro.

Roedd Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 yn ei gwneud yn ofynnol bod Panel yr Heddlu a Throsedd yn cynnal gwrandawiad cyhoeddus ar gyfer yr uwch benodiad hwn, lle gofynnwyd i'r ymgeisydd ymddangos at ddibenion ateb cwestiynau sy'n ymwneud â'r penodiad.

Yn dilyn y gwrandawiad, roedd yn ofynnol i'r Panel adolygu'r uwch benodiad bwriedig a chyflwyno adroddiad i'r Comisiynydd ar y penodiad.

Amlinellodd y Comisiynydd y rôl a'r swyddogaethau statudol fydd yn cael eu dirprwyo i'r swydd hon a gofynnodd i'r Panel ystyried uwch benodiad Julian Sandham fel y Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd dros dro.

Cadarnhaodd y Comisiynydd ei fod eisoes wedi dechrau'r broses recriwtio, er mwyn llenwi'r swydd yn barhaol ac roedd yn rhagweld y bydd hyn yn cymryd rhwng 4 a 5 mis.

Anerchodd Mr. Sandham y Panel ac ymatebodd i gwestiynau a ofynnwyd gan Aelodau'r Panel.

Yn dilyn y gwrandawiad, cadarnhaodd y Panel gynnig i eithrio'r wasg a'r cyhoedd er mwyn trafod yn breifat.

PENDERFYNWYD-

(a) Argymell i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd y dylid penodi Julian Sandham fel y Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd dros dro.

(b) Rhoi adborth i'r Panel ynglŷn â sut y mae'r Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd wedi helpu'r Comisiynydd gyda'i ddyletswyddau statudol a'i addewidion etholiad.

(c) Mae'r Panel yn disgwyl cael gwybodaeth fanylach ynglŷn â'r unigolyn a enwebwyd i swydd barhaol y Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd, cyn y Gwrandawiad Cadarnhau.

(Daeth y cyfarfod i ben am 2.45 pm)

Diweddariad i'r Panel Heddlu a Throsedd
gan y Comisiynydd Heddlu Winston Roddick

Pwrpas yr adroddiad hwn yw darparu crynodeb i aelodau'r Panel ynghylch y cynnydd sydd wedi'i wneud o ran y Cynllun Heddlu a Throsedd, i ddiweddaru'r aelodau ynghylch beth rwyf wedi bod yn ei wneud ers ein cyfarfod diwethaf ac i roi amlinelliad byr o beth rwyf wedi'i drefnu ar gyfer y dyfodol agos. Byddaf yn ychwanegu at yr adroddiad hwn yn y cyfarfod ar 11 Tachwedd.

Mae bron yn ddeuddeng mis ers i mi gael fy ethol yn Gomisiynydd Heddlu a Throsedd cyntaf Gogledd Cymru. Mae'r deuddeg mis yna wedi cyflwyno sawl her, a'r fwyaf oedd deall y rôl gwbwl newydd hon a rhoi mecanweithiau priodol mewn lle er mwyn mesur effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd yr Heddlu.

Yn ystod fy mlwyddyn gyntaf fel Comisiynydd rwyf wedi canolbwyntio ar ddeall yn llwyr beth mae fy rôl yn ei olygu a dysgu mwy am Heddlu Gogledd Cymru a'r tirlun plismona lleol. Mae adeiladu perthnasau ystyrlon gyda nifer o sefydliadau ac unigolion wedi bod yn hanfodol. Rwy'n neilltuol o falch o'r berthynas waith bositif sydd gennyf gyda'r Prif Gwnstabl. Bydd yn mynychu cyfarfod y Panel ar 11 Tachwedd.

Er bod fy annibyniaeth i ac annibyniaeth weithredol yr Heddlu o'r pwys mwyaf, mae hefyd yn bwysig ein bod yn deall ein gilydd ac yn cydweithio er mwyn darparu gwasanaeth plismona effeithiol ac effeithlon. Credaf ein bod wedi creu sylfeini cadarn ar gyfer y dyfodol.

Yr wythnos hon mi wnes lansio fy ail alwad am dystiolaeth Y cyntaf oedd cais i drigolion Gogledd Cymru fy hysbysu o unrhyw bryderon oedd ganddynt am drosedd a materion plismona er mwyn helpu i hysbysu fy Nghynllun Heddlu a Throsedd. Nod yr ail alwad yma am dystiolaeth yw fy ngalluogi i adolygu'r Cynllun fel y gallaf fesur os ydyw wedi bod yn effeithiol ac i gymryd i ystyriaeth pa bryderon fyddai pobl yn dymuno'u gweld yn cael sylw yn y Cynllun diwygiedig.

Ers fy ymddangosiad diwethaf gerbron y Panel, derbyniais gadarnhad gan Gomisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu (CCAH) nad oes tystiolaeth i brofi honiad a wnaed yn fy erbyn. Cafodd CCAH gŵyn fy mod wedi rhoi ar un o fy mhapurau enwebu ar gyfer etholiad y Comisiynydd Heddlu a Throsedd ym mis Tachwedd y llynedd gyfeiriad nad oedd yn gartref i mi a fy mod felly wedi cyflawni trosedd etholiadol. Mi wnaeth CCAH ymchwilio i'r honiad hwnnw. Daeth i'r casgliad nad oedd tystiolaeth fy mod wedi cyflawni unrhyw drosedd. Nid oes gennyf amheuaeth mai bwriad y gŵyn oedd tynnu fy sylw oddi ar fy nyletswyddau fel Comisiynydd Heddlu a Throsedd ond rwy'n falch bod fy swyddfa wedi gallu parhau i berfformio'n dda drwy gydol ymholiad CCAH. Rwy'n ddiolchgar iawn i'r Panel Heddlu a Throsedd, y Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd, fy staff a thrigolion Gogledd Cymru am eu cefnogaeth gadarn yn ystod yr ymchwiliad.

Rŵan gan fod yr ymchwiliad y tu cefn i ni, bydd fy ffocws yn parhau i fod mor gryf ag erioed ar weithio gyda Heddlu Gogledd Cymru a phartneriaid eraill i wasanaethu ein cymunedau lleol ac yn anad dim lleihau trosedd.

Cynnydd ar ddarpariaeth y Cynllun Heddlu a Throsedd

Gan fod y Panel wedi gwahodd y Prif Gwnstabl i fynychu cyfarfod y Panel mi wnaf ganolbwyntio ar berfformiad a fy nghynlluniau ar gyfer yr adolygiad o'r Cynllun Heddlu a Throsedd.

Lansio Adolygiad o'r Cynllun Heddlu a Throsedd

Yn fy Nghynllun Heddlu a Throsedd dywedais y byddwn yn ei adolygu'n rheolaidd. Mae pen-blwydd fe mhenodiad yn adeg briodol i wneud hyn. I'r perwyl hwn gofynnaf i'r cyhoedd am adborth ac awgrymiadau pellach i fy helpu i i'w adolygu.

Fel rhan o'r gwaith paratoi ar gyfer y Cynllun Heddlu a Throsedd mi wnes lansio galwad am dystiolaeth, a hoffwn lansio'r ail alwad am dystiolaeth i helpu i'w adolygu. Rwyf eisiau clywed am eich profiadau diweddar chi o drosedd a materion plismona yng Ngogledd Cymru. Croesawaf adborth am brofiadau personol neu gyfunol neu waith ymchwil.

Hoffwn dderbyn yr adborth erbyn 10 Ionawr 2014. Bydd hyn yn fy ngalluogi i gyflwyno crynodeb ohonynt a fy newidiadau arfaethedig i'r Cynllun Heddlu a Throsedd i'r Panel eu hystyried ar 20 Ionawr. Yn dilyn y cyfarfod hwnnw bwriadaf ymgynghori ymhellach ar y drafft diwygiedig cyn i mi gyflwyno'r drafft terfynol i'r Panel ar 17 Mawrth.

Ystadegau Trosedd

Mae'r Heddlu yn parhau i flaenoriaethu gweithgareddau lleihau trosedd ac mae'r nifer o droseddau sy'n seiliedig ar y dioddefwr a gofnodwyd yn parhau i ostwng. Hyd Medi 2013, gwelwyd newid blwyddyn ar flwyddyn o -3.2%. Mae'r tabl isod yn cynnwys dadansoddiad o'r newidiadau mewn cyfraddau trosedd a gofnodwyd (BHY Medi 2013)

Categori	2012. BHY	2013. BHY	% Newid
Trais gydag anaf	2297	2116	-7.9%
Trais heb anaf	2107	2152	2.1%
Trais rhywiol	139	146	5.0%
Troseddau rhyw (ac eithrio trais rhywiol)	253	290	14.6%
Byrgleriaeth o Gartref	715	833	16.5%
Byrgleriaeth heb fod o Gartref	1490	1515	1.7%
Lladrad	76	51	-32.9%
Troseddau Cerbyd	1405	1248	-11.2%
Siopladrad	1852	1970	6.4%
Dwyn o fath arall	3290	3082	-6.3%
Difrod Troseddol ac Arson	3952	3608	-8.7%
Cyfanswm Troseddau sy'n Seiliedig ar y Dioddefwr	17576	17011	-3.2%

Er rwy'n falch o gael dweud bod y cyfraddau trosedd cyffredinol yn parhau i ostwng rwyf wedi cymryd diddordeb neilltuol yn y cynnydd mewn byrgleriaethau o gartref, trais rhywiol a troseddau rhywiol. Byddaf yn adrodd ar y gweithgareddau yr wyf wedi ymgymryd â nhw i archwilio'r tueddau yma ymhellach yng nghyfarfod y Panel.

Cod y Dioddefwyr

Bellach mae'r Cod Ymarfer i Ddioddefwyr wedi'i gyhoeddi. Bydd y cod statudol hwn yn dod i rym ym mis Rhagfyr 2013. Byddaf yn cynnal gweithgareddau hybu ymwybyddiaeth er mwyn sicrhau bod dioddefwyr yn ymwybodol o beth ddylent ei gael dan y cod newydd a byddaf yn monitro ei weithrediad ar draws Gogledd Cymru.

Mi wnes hysbysu'r Panel o fy mwriad i gyfarfod dioddefwyr trosedd i drafod gyda nhw eu profiadau yng Ngogledd Cymru. Bwriadaf gynnal cynhadledd yng Ngogledd Cymru yn y Flwyddyn Newydd, nod y gynhadledd fydd llunio siarter lleol ar gyfer dioddefwyr a sicrhau bod y cod newydd yn diwallu anghenion trigolion Gogledd Cymru a fy mod i yn gwybod pa wasanaethau i'w diogelu yn y dyfodol.

Peilot cyllideb gyfranogol

Rwyf wedi lansio cynllun grant cyllideb gyfranogol peilot. Rwy'n gwybod bod hwn yn derm eithaf technegol ond beth mae'n ei olygu yn y bôn ydi y bydd cymunedau Gogledd Cymru yn gallu penderfynu pa brosiectau ddylai gael cefnogaeth ariannol. Rwy'n gwybod fod yna gymunedau a sefydliadau sydd â phrosiectau arloesol fyddai'n gallu helpu i wneud Gogledd Cymru yn ddiogelach. Bydd y cynllun peilot hwn yn rhoi'r pŵer i wneud penderfyniadau yn nwylo ein cymunedau drwy ganiatáu iddynt benderfynu pa brosiectau i'w gefnogi.

Bydd y peilot hwn yn cael ei ariannu'n rhannol drwy arian a gafwyd yn sgil y Ddeddf Elw Troseddau (DET); arian sydd wedi cael ei adennill gan droseddwyr a euogfarnwyd sy'n cael ei ddychwelyd i'w ail-fuddsoddi yng nghymunedau Gogledd Cymru. Bydd y rhan arall yn arian a glustnodwyd ar gyfer Cronfa'r Comisiynydd.

Croesawir ceisiadau gan brosiectau sydd angen cefnogaeth ariannol o hyd at £3,500 sy'n gallu dangos y byddant yn helpu i leihau trosedd. Unwaith y bydd y ceisiadau wedi'u cyflwyno (y dyddiad cau yw 30 Tachwedd), byddant yn cael eu hadolygu yn erbyn y meini prawf cymhwysedd gan banel ym mhob sir a bydd y rhai hynny sy'n diwallu'r meini prawf yn mynd ymlaen i'w hystyried gan y cyhoedd. Bydd modd i'r cyhoedd bleidleisio pa brosiectau ddylai dderbyn cefnogaeth ariannol ar-lein. Bydd y ddau brosiect ym mhob sir yng Ngogledd Cymru sy'n derbyn y gefnogaeth fwyaf gan y cyhoedd yn derbyn cymorth ariannol.

Byddwn yn gwerthfawrogi cymorth aelodau'r Panel i hybu ymwybyddiaeth o'r cynllun grant er mwyn sicrhau bod y cymunedau'n ymwybodol o'r cyfle hwn. Mae rhagor o fanylion ar gael ar fy ngwefan i a gwefan Heddlu Gogledd Cymru.

Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd

Yn hwyr ym mis Medi mi wnaeth y Panel gymeradwyo fy nghais i benodi Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Dro dro. Ers dechrau yn y swydd mae Julian Sandham wedi dod gyda mi i sawl digwyddiad pwysig, gan gynnwys Grŵp Plismona Cymru Gyfan, cyfarfod gyda'r ASau lleol a gweithgareddau pwysig eraill. Mae hefyd wedi fy nghynrychioli yn CCB Ynadon Clwyd a mynychu digwyddiad prosiect Phoenix yn Wrecsam a drefnwyd gan y Gwasanaeth Tân ac Achub. Yn ychwanegol at hyn mae wedi canolbwyntio ar y meysydd busnes canlynol - adolygu prosesau busnes, dadansoddi perfformiad a chyfathrebu.

Unplygrwydd yr Heddlu

Yn y misoedd diwethaf mae llawer o sylw wedi'i roi yn y wasg i faterion sy'n ymwneud ag unplygrwydd yr heddlu. Rwyf ar hyn o bryd yn rhan o grŵp cenedlaethol o Gomisiynwyr sy'n edrych ar y trefniadau cyfredol ar gyfer cwynion yn erbyn yr heddlu. Meddyliais fod hwn yn gyfle amserol i hysbysu'r panel ynghylch sut rwy'n bwriadu diwallu fy nyletswydd statudol sydd wedi'i nodi yng ngorchymyn protocol plismona 2011.

"*monitro pob cwyn a wneir yn erbyn swyddogion a staff, a bod â chyfrifoldeb am gwynion a wneir yn erbyn y Prif Gwnstabl*"

Fel rhan o'r Bwrdd Gweithredol Strategol, sef y dull ffurfiol yr wyf yn ei ddefnyddio i drafod materion strategol penodol gyda'r Prif Gwnstabl a'r uwch swyddogion, rwy'n cael diweddariadau gan y Dirprwy Brif Gwnstabl ar faterion allweddol sy'n ymwneud ag ymddygiad moesegol cyffredinol y gwasanaeth yng Ngogledd Cymru. Byddaf yn cael cyfarfodydd rheolaidd gyda Chomisiynydd Cwynion Annibynnol yr Heddlu newydd Cymru - Jan Williams er mwyn adolygu darganfyddiadau ymchwiliadau, cymharu ystadegau a thrafod materion neilltuol eraill.

Rwy'n cael cyfarfodydd gyda'r Dirprwy Brif Gwnstabl, Pennaeth yr Adran Safonau Proffesiynol ac aelodau o fy staff er mwyn cael a chraffu ar wybodaeth perfformiad sy'n ymwneud â'r cwynion a gafwyd am Heddlu Gogledd Cymru a'r canlyniadau. Yn y cyfarfodydd hyn rwy'n adolygu'r math o gwynion a geir ynghyd â darganfyddiadau'r cwynion a'r camau gweithredu.

Mae'n rhaid ymddiried yn yr heddlu i weithredu'n effeithiol. Mae'n rhaid i unrhyw sefydliad sy'n dibynnu ar ffydd y cyhoedd fod â ffordd effeithiol o ddelio â chwynion.

AHEM

Ers cyfarfod diwethaf y panel rwyf wedi ymateb i un adroddiad archwilio gan Awdurdod Heddluoedd Ei Mawrhydi (AHEM). Pan rwy'n derbyn adroddiadau AHEM rwy'n ystyried y darganfyddiadau ac yn paratoi ymateb i'r Ysgrifennydd Cartref. Rwy'n adolygu'r darganfyddiadau gyda'r Heddlu drwy'r Bwrdd Gweithredol Strategol ac rwy'n derbyn diweddariadau ar unrhyw argymhellion sy'n codi o'r adroddiadau archwilio.

Rising to the Challenge

Ym mis Hydref 2010, cyhoeddodd y Llywodraeth y byddai nawdd canolog y Gwasanaeth Heddlu yng Nghymru a Lloegr yn gostwng 20% yn y pedair blynedd rhwng Mawrth 2011 a Mawrth 2015. Ers haf 2011 mae Rhaglen Gwerthfawrogi'r Heddlu AHEM wedi bod yn edrych ar sut mae'r heddluoedd yn bwriadu gwneud arbedion er mwyn ymateb i'r gostyngiad hwn. Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r darganfyddiadau ar gyfer y drydedd flwyddyn. Mi wnaeth archwiliad AHEM ganolbwyntio ar dri chwestiwn: Sut mae'r heddlu yn ymateb i'r gostyngiad yn y gyllideb? Beth yw effaith hyn ar y gweithlu a'r cyhoedd? Sut mae'r heddlu yn rheoli'r risgiau presennol a rhai'r dyfodol?**Ymateb y Comisiynydd - Policing in Austerity - Rising to the Challenge**

Gohebiaeth

Un o'r gwahaniaethau nodedig rhwng proffil y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a phroffil Awdurdod yr Heddlu ydi fy mod i yn cael llawer mwy o ohebiaeth. Mae'r tabl isod yn rhoi crynodeb o'r nifer o lythyrau a dderbyniwyd gan Awdurdod yr Heddlu a'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn ôl eu trefn. Yn amlwg fe dderbynnir llawer iawn o ohebiaeth hefyd ar ffurf e-bost a dros y ffôn, ond oherwydd mai bwriad y tabl isod ydi gallu cymharu ffigyrau, nid wyf wedi cynnwys yr ohebiaeth honno.

Gohebiaeth a Dderbynnir (heb gynnwys ffôn ac e-bost)			
Awdurdod yr Heddlu		**Comisiynydd Heddlu**	
Tachwedd 2011	13	Tachwedd 2012	31
Rhagfyr 2011	7	Rhagfyr 2012	41
Ionawr 2012	5	Ionawr 2013	79
Chwefror 2012	6	Chwefror 2013	84
Mawrth 2012	6	Mawrth 2013	43
Ebrill 2012	2	Ebrill 2013	53
Mai 2012	1	Mai 2013	42
Mehefin 2012	3	Mehefin 2013	31
Gorffennaf 2012	2	Gorffennaf 2013	45
Awst 2012	0	Awst 2013	29
Medi 2012	3	Medi 2013	20
Hydref 2012	6		
Tachwedd 2012	1		
Cyfanswm	55	Cyfanswm	498

Mae'n amlwg o'r ffigyrau bod aelodau'r cyhoedd wedi ymateb i fod ag unigolyn penodol y gellir cysylltu ag o. Mae rhai o'r materion a godwyd y tu allan i fy nghylch gwaith, felly mae dal gwaith i'w wneud o hyd i hybu ymwybyddiaeth y cyhoedd o fy rôl. Fodd bynnag, mae'r mwyafrif o'r materion a godwyd wedi fy helpu i ddeall canfyddiadau'r cyhoedd o drosedd a'r heddlu, a bydd yn parhau i hysbysu fy rhaglen waith dros y blynyddoedd i ddod. Mae'r swyddfa wedi llunio ac adolygu'r polisi ar ymdrin â gohebiaeth.

Adolygiad y Swyddfa Archwilio Cenedlaethol ar Atebolrwydd yr Heddlu

Yn ddiweddar mi wnaeth y Swyddfa Archwilio Cenedlaethol (NAO) ddewis Gogledd Cymru i gymryd rhan yn ei adolygiad ar Atebolrwydd yr Heddlu. Hoffwn ddiolch i aelodau'r Panel ac i'r Cyd-Bwyllgor Archwilio a wnaeth hefyd gymryd rhan yn yr adolygiad. Nod yr adolygiad yw archwilio gweithrediad y newidiadau a gyflwynwyd yn sgil Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol.

Adroddiad Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd

Teitl:	**Diweddariad ar Gyllideb 2013/14 (fel yr oedd ar 30.9.2013)**
Cyfarfod:	**Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, 11 Tachwedd 2013**
Awdur:	**Kate Jackson, Prif Swyddog Cyllid**

1. Cyflwyniad

1.1 Nod y papur hwn yw rhoi diweddariad i aelodau'r panel ar y gyllideb blismona ar gyfer Gogledd Cymru yn ail chwarter 2013/14.

2. Argymhellion

2.1 I nodi'r adroddiad

3. Diweddariad ar gyllideb 2013/14

3.1 Ar 21ain Ionawr 2012 cytunwyd gyda'r Panel ar gyllideb o £141.705m ar gyfer Heddlu Gogledd Cymru. Ar 30 Medi 2013, y rhagamcaniad hyd ddiwedd y flwyddyn yw tanwariant o £1.580 (£1.723 wedi'i riportio ar 30 Mehefin).

3.2 Mae'r newid mwyaf yn y rhagamcanion mewn Taliadau Pensiwn Uniongyrchol. Y rheswm am hyn yw'r cynnydd yn y nifer o ymddeoliadau ar sail iechyd a ragwelir, o 5 i 15. Mae cronfa benodol ar gyfer hyn a bydd y sefyllfa'n cael ei monitro yn ystod y flwyddyn i benderfynu a fydd yn angenrheidiol cymryd arian o'r gronfa hon.

3.3 Mae amrywiadau eraill a'r rhesymau drostynt i'w gweld isod:

3.3.1 **Cyflogau'r Heddlu** - Mae recriwtio yn mynd rhagddo, gyda 36 swyddog wedi ymuno â'r heddlu yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn a 36 arall i ymuno yn ystod yr ail hanner. Yn ystod y chwe mis cyntaf, gadawodd 39 swyddog. Mae secondiadau wedi codi 5 ers dechrau'r flwyddyn. Effaith hollgynhwysfawr y datblygiadau a'r newidiadau hyn yw tanwariant o £0.497m.

3.3.2 **Cyflogau Staff yr Heddlu** – y rhagamcan ar hyn o bryd yw y bydd gorwariant o £0.371m. Mae hyn yn cynnwys staff asiantaeth ychwanegol i lenwi swyddi staff gwag, llenwi swyddi swyddogion ar brosiectau a phrosiectau eraill megis ymchwilwyr sifil a chydlynwyr pobl ar goll o gartref. Mae'r tanwariant ar gyflogau'r heddlu yn gwrthbwyso'r gorwariant hwn.

3.3.3 **Goramser** – ar hyn o bryd y rhagamcan yw y bydd tanwariant ar oramser yr Heddlu o ganlyniad i gyfuniad o:

- Oramser wedi'i noddi o gronfeydd wrth gefn a chyd-gymorth
- Un taliad gŵyl y banc yn llai yn y flwyddyn ariannol hon
- Rheolaeth cyllidebau goramser cyffredinol

Gallai'r sefyllfa hon newid yn ystod ail hanner y flwyddyn yn ddibynnol ar ofynion gweithredol. Ar hyn o bryd y rhagamcan yw y bydd gorwariant bach ar oramser staff yr heddlu, ond mae hyn yn cynrychioli gostyngiad o oddeutu £0.150m ar y gwir wariant y llynedd.

3.3.4 **Lwfansau** - mae'r tanwariant yn ymwneud yn bennaf a Thaliadau Trothwy Seiliedig ar Allu, a ddiddymwyd ddiwedd Mawrth fel rhan o Adolygiad Cyflogau Winsor. Mae hefyd arbedion ar lwfansau rhent a thai wrth i swyddogion ymddeol. Bydd modd lleihau'r cyllidebau hyn yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf.

3.3.5 **Prif bwyntiau – nid staff - eraill**

- **Staff – materion eraill** – cafwyd gostyngiad mewn costau amcangyfrifedig o £0.200m ar achosion cyflogwyr ac atebolrwydd cyhoeddus yn seiliedig ar yr achosion presennol ar y gyllideb Staff – Materion Eraill.
- **Offer** - prynwyd nifer o eitemau ychwanegol o offer ar sail 'unwaith yn unig' gyda chyllid a gafwyd o arbedion ar linellau cyllid eraill (£0.150m).
- **Ymchwil Fforensig** – bu nifer llai o droseddau oedd yn gofyn am ddadansoddiad fforensig, a nifer isel o ddigwyddiadau sylweddol sydd wedi digwydd hyd yma. Mae hyn wedi arwain at danwariant rhagamcanol o £0.220m.
- **Cronfeydd wrth gefn** – mae cronfeydd cyffredinol wedi'u neilltuo i'r penawdau perthnasol ac wedi'u cynnwys yn y rhagamcanion. O'r gyllideb wrth gefn wreiddiol ar gyfer digwyddiadau sylweddol, sef £0.554m, mae cyfanswm o £0.126 wedi'i neilltuol neu eisoes wedi'i wario. Mae'n anodd rhagamcan y defnydd o'r gyllideb hon gan y bydd yn dibynnu ar natur y digwyddiadau yn ail hanner y flwyddyn. Amcangyfrifir y bydd hanner y gyllideb wreiddiol yn cael ei defnyddio yn ail hanner y flwyddyn.

3.3.6 **Incwm** – bu cynnydd pellach yn y rhagamcaniad ar gyfer incwm, sydd wedi digwydd yn bennaf yn sgil gwerthu cerbydau, codi am y defnydd o safle'r hofrennydd, ffioedd hyfforddi a chyd-gymorth.

	Budget 2013-14 as at 30.9.13	YTD Budget 30.9.13	YTD Actual 30.9.13	YTD Est/Comm 30.9.13	YTD Var 30.9.13	Annual Budget 30.9.13	Full Year Projection 30.9.13	EOY Variance 30.9.13
		£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000
	Expenditure							
1	**Police Officer Pay**	36,418	35,896	0	-522	72,242	71,745	-497
2	**Police Staff Pay**	20,235	19,785	140	-310	40,028	40,399	371
3	**Police Officer Overtime**	1,162	1,217	175	230	2,614	2,257	-357
4	**Police Staff Overtime**	186	239	47	100	451	507	56
5	**Allowances**	1,676	1,340	0	-336	3,267	2,804	-463
6	**Training**	310	284	0	-26	727	724	-3
7	**Other Employee**	329	351	0	22	656	408	-248
8	**Direct Pension Payments**	1,472	1,567	0	95	2,944	3,589	645
9	**Energy Costs**	559	431	103	-25	1,342	1,247	-95
10	**Building Running Costs**	3,360	3,723	0	363	6,719	6,715	-4
11	**Repairs & Maintenance of Vehicles**	438	451	0	13	985	900	-85
12	**Vehicle Running Costs**	921	1,059	0	138	2,081	2,009	-72
13	**Car & Travelling Allowances**	315	209	30	-76	701	721	20
14	**Air Support Unit**	697	404	0	-293	1,394	1,450	56
15	**Equipment**	495	582	0	87	912	1,061	149
16	**Clothing and Uniforms**	213	253	0	40	506	540	34
17	**Printing and Stationery**	315	264	0	-51	590	547	-43
18	**IT and Communications**	4,962	5,442	0	480	9,685	9,719	34
19	**Subsistence**	190	167	0	-23	346	304	-42
20	**Other Supplies and Services**	2,256	1,892	0	-364	4,183	4,251	68
21	**Forensics**	770	361	75	-334	1,540	1,320	-220
22	**Debt Charges & Contribution to Capital**	952	0	0	-952	1,904	1,904	0
23	**Special Situations Contingency**	0	0	0	0	428	277	-151
24	**Inflation and General Contingency**	0	0	0	0	0	0	0
25	**2014-15 Savings indentified**	0	0	0	0	0	0	0
	Gross Expenditure	**78,231**	**75,917**	**570**	**-1,744**	**156,245**	**155,398**	**-847**
	Income							
26	**Secondments**	-525	-277	0	248	-1,096	-1,096	0
27	**Interest on Balances**	-136	-79	0	57	-271	-325	-54
28	**Income**	-1,208	-1,341	0	-133	-3,060	-3,529	-469
29	**Specific Grants**	-5,582	-4,128	0	1,454	-10,560	-10,770	-210
	Total Income	**-7,451**	**-5,825**	**0**	**1,626**	**-14,987**	**-15,720**	**-733**
30	**PFI Reserve**	446	0	0	-446	446	446	0
	Net Expenditure	**71,226**	**70,092**	**570**	**-564**	**141,704**	**140,124**	**-1,580**
	Contribution to/(-) from Balances					**0**	**-1,580**	**-1,580**
31	Total Grants	-39,790	-40,707	0	-917	-79,580	-79,580	0
32	Council Tax	-31,062	-31,062	0	0	-62,124	-62,124	0
	Funding	-70,852	-71,769	0	-917	-141,704	-141,704	0

4. Cyfalaf

4.1 Gwariant yn hanner cyntaf y flwyddyn oedd £4.443m o gymharu â'r gyllideb wreiddiol ar gyfer y flwyddyn o £13.305m. Y rhagamcan rŵan ar gyfer 2012/13 yw £9.010m, a chynigir mai dyma ddylai'r gyllideb ddiwygiedig ar gyfer y flwyddyn ariannol hon fod. Bydd y gyllideb sy'n weddill yn cael ei throsglwyddo i gyllidebau'r dyfodol.

4.2 **Ystadau** – y ddau brif brosiect o fewn Rhaglen yr Ystâd yw'r orsaf newydd sbon yn Llangefni a'r datblygiadau newydd yn Wrecsam. Mae'r adeilad newydd yn Llangefni bellach yn barod a bydd yn cael ei agor yn swyddogol ar 29ain Tachwedd. Mae'r safle yn Wrecsam wedi'i brynu a'r gyllideb o £16,667 wedi'i gytuno.

5. Datganiad o Gyfrifon 2012-13

5.1 Mae'r Datganiad o Gyfrifol wedi'i archwilio a'i arwyddo gan Swyddfa Archwilio Cymru i dystio ei fod yn rhoi barn gywir a theg, a'i fod wedi'i baratoi'n gywir yn unol â Chod Ymarfer Cyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2012 – 13.

5.2 Roedd cynnydd cyffredinol o £2.258m mewn refeniw defnyddiadwy a chronfeydd cyfalaf. Mae'r symudiadau yn y cronfeydd unigol i'w gweld ar dudalen 5 o'r Datganiad o Gyfrifon Grŵp.

Adroddiad gan Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd

Teitl:	**Amserlen ar gyfer Praesept Plismona arfaethedig 2014/15**
Cyfarfod:	**Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, 11 Tachwedd 2013**
Awdur:	**Kate Jackson, Prif Swyddog Cyllid**

1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r amserlen arfaethedig ar gyfer gosod y praesept ar gyfer blwyddyn ariannol 2014/15.

2. Argymhellion

2.1 Bod y Panel Heddlu a Throsedd yn cymeradwyo'r amserlen arfaethedig ar gyfer gosod praesept 2014/15.

3. Amserlen

3.1 Mae gan y Panel Heddlu a Throsedd rôl allweddol i'w chwarae wrth bennu lefel praesept plismona 2014/15. Mae Atodlen 5 i Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 yn nodi beth yw rôl y Panel o ran adolygu lefel y praesept a argymhellir gan y Comisiynydd; mae Atodiad 1 o'r adroddiad hwn yn cynnwys arweiniad y Swyddfa Gartref a'r amserlen statudol ar gyfer y Panel Heddlu a Throsedd.

3.2 Wrth gynllunio amserlen cyfarfodydd y Panel Heddlu a Throsedd rhagwelwyd y byddai'r cynnig yn cael ei gyflwyno i'r Panel ym mis Rhagfyr, fodd bynnag ni fydd Y Swyddfa Gartref yn cyhoeddi manylion grant plismona Gogledd Cymru tan ddiwedd mis Rhagfyr. Felly ni fydd y Comisiynydd mewn sefyllfa i gyflwyno'r cynnig i'r Panel tan fis Ionawr 2014.

3.3 Rhagwelir y bydd y Comisiynydd yn hysbysu'r Panel o'r praesept arfaethedig ar gyfer 2014/15 ar 13 Ionawr 2014, wythnos cyn **cyfarfod y Panel a gynhelir ar 20 Ionawr 2014**.

3.4 Mae'r tabl isod yn crynhoi'r dyddiadau cau statudol a'r trefniadau arfaethedig ar gyfer Gogledd Cymru. Os yw'r Panel yn penderfynu gwrthod y praesept arfaethedig yna rhaid gwneud hynny **cyn 14 Chwefror 2014** er mwyn i'r biliau treth cyngor allu cael eu hanfon allan yn unol â'r trefniadau lleol, a byddai rhaid cynnal cyfarfod arbennig o'r Panel cyn 3 Chwefror.

Gweithgaredd	Dyddiad cau statudol	Amserlen Gogledd Cymru
Y Comisiynydd i hysbysu'r Panel o'r praesept arfaethedig.	1 Chwefror	13 Ionawr
Y Panel i adolygu'r cynnig ac i gyflwyno adroddiad i'r Comisiynydd ar y praesept arfaethedig (os ydyw'n gwrthod y cynnig ai peidio)	8 Chwefror	20 Ionawr
Os bydd y Panel yn penderfynu gwrthod y praesept arfaethedig, mae'n rhaid i'r Comisiynydd dderbyn hyn, ymateb i adroddiad y Panel a chyhoeddi ei ymateb gan gynnwys y praesept diwygiedig.	15 Chwefror	
Ar ôl i'r Panel dderbyn ymateb y Comisiynydd ar y praesept diwygiedig, bydd rhaid adolygu'r cynnig a chyflwyno ail adroddiad i'r Comisiynydd.	22 Chwefror	Cyfarfod arbennig o'r Panel Heddlu a Throsedd i'w drefnu cyn 3 Chwefror (os bydd angen).
Bydd rhaid i'r Comisiynydd ystyried ac ymateb i ail adroddiad y Panel a chyhoeddi ei ymateb.	1 Mawrth	

Home Office Guidance

Police and Crime Panels – Scrutiny of Precepts

This guidance note explains the process for the police and crime panel's (PCP) scrutiny of the police and crime commissioner's (PCC) proposed precept and should be read alongside:

- Schedule 5 of the Police Reform and Social Responsibility Act 2011 ("the Act")
- Part 2 of the Police and Crime Panels (Precepts and Chief Constable Appointments) Regulations 2012 ("the Regulations")

A separate guidance note setting out the scrutiny of chief constable appointments has been published alongside this guidance note.

Background

Schedule 5 of the Act sets out the process for issuing a precept, including the panel's role in reviewing the proposed precept, their power to veto the precept and the steps to be taken if they do veto the proposed precept.

The Regulations provide greater detail to the Act, including time limits applicable to the stages of the process and the process for reviewing and issuing a revised precept.

Schedule 5 requires:

- the PCC to notify the panel of his/her proposed precept;
- the panel to review the proposed precept;
- the panel to make a report to the PCC on the proposed precept (this may include recommendations);
- the panel's report (if they veto the proposed precept) to include a statement that they have vetoed it;
- a decision of veto to be agreed by two-thirds of the panel members;
- the PCC to have regard to the report made by the panel (including any recommendations in the report);
- the PCC to give the panel a response to their report (and any such recommendations);
- the PCC to publish the response.

It is for the panel to determine how a response to a report or recommendations is to be published.

If there is no veto and the PCC has published his/her response to the panel's report, the PCC may then issue the proposed precept - or a different precept (but only if in accordance with a recommendation in the panel's report to do so).

The Regulations require:

- the PCC to notify the panel of his/her proposed precept **by 1 February**;
- the panel to review and make a report to the PCC on the proposed precept (whether it vetoes the precept or not) **by 8 February**;
- where the panel vetoes the precept, the PCC to have regard to and respond to the Panel's report, and publish his/her response, including the revised precept, **by 15 February**;
- the panel, on receipt of a response from the PCC notifying them of his/her revised precept, to review the revised precept and make a second report to the PCC **by 22 February**;
- the PCC to have regard to and respond to the Panel's second report and publish his/her response, **by 1 March**.

Panel's report on the proposed precept

If the panel fails to report to the PCC by 8 February the scrutiny process comes to an end, even if the panel have voted to veto the proposed precept, and the PCC may issue the proposed precept.

PCC's response to a veto

Where the panel vetoes the proposed precept, the PCC must have regard to the report made by the panel, give the panel a response to the report and publish the response, by 15 February. In his/her response, the PCC must notify the panel of the revised precept that he intends to issue.

Where the panel's report indicates that they vetoed the precept because it was:

- too **high**, the revised precept must be lower than the previously proposed precept.
- too **low**, the revised precept must be higher than the previously proposed precept.

The PCP may only veto the first proposed precept. Such a veto must be agreed by two-thirds of PCP members (the full membership rather than those present at a meeting). Where a veto occurs, the report to the PCC must include a statement to that effect.

Panel' s review of the revised precept

On receipt of a response from the PCC notifying them of the revised precept proposal, the panel must review the revised precept proposal and make a second report to the PCC on the revised precept by 22 February. This report may:

- indicate whether the panel accepts or rejects the revised precept (although rejection does not prevent the PCC from issuing the revised precept); and
- make recommendations, including recommendations on the precept that should be issued.

If the panel fails to make a second report to the PCC by 22 February, the PCC may issue the revised precept.

Issuing the precept

Excluding where the panel fails to report on the proposed precept by 8 February or make a second report on the revised precept by 22 February, the scrutiny process ends when the PCC gives the panel his/her response to their second report.

The PCC may then:

- issue the revised precept; or
- issue a different precept, although:
    - they must not issue a precept that is higher than the revised precept if the revised precept was lowered following the panel's initial report on the first proposed precept indicating it was vetoed because it was too high;
    - they must not issue a precept which is lower than the revised precept if the revised precept was raised following the panel's initial report on the first proposed precept indicating it was vetoed because it was too low.

Process for PCP scrutiny of PCC's proposed precept



	Panel yr Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru
DYDDIAD:	11 Tachwedd 2013
SWYDDOG CYSWLLT:	Ken Finch, Cyfarwyddwr Strategol (Democrataidd, Rheoleiddio a Chefnogaeth)
TESTUN:	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy Crynodeb o'r Cwynion a Dderbyniwyd

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1 Er mwyn roi'r wybodaeth ddiweddaraf i Banel yr Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ynglŷn â'r camau a gymerwyd i ddatrys y cwynion a dderbyniwyd hyd yn hyn.

2. CRYNODEB GWEITHREDOL

2.1 Cymeradwyodd Panel yr Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru y Weithdrefn Gwyno yn ei gyfarfod ar 4 Mehefin 2013.

2.2 Mae gan Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru gyfrifoldebau statudol wrth ymdrin â chwynion penodol a wneir yn erbyn Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd. Penderfynodd y Panel i ddirprwyo'i swyddogaethau i Gyfarwyddwr Strategol (Democrataidd, Rheoleiddio a Chefnogaeth) yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (Awdurdod Cynnal Panel yr Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru). Mae'n rhaid iddo ymgynghori â'r Cadeirydd, yr Is-Gadeirydd a chydag un Aelod Annibynnol (os yw ar gael) i bennu'r mathau o gwynion a dderbynnir, a'r strategaeth ar gyfer rheoli cwynion i'w datrys yn lleol a dull terfynol y Panel o ddatrys cwynion.

2.3 Mae Atodiad 1 yn cynnwys crynodeb o'r cwynion sydd wedi eu derbyn hyd yma, sy'n cynnwys dyddiad derbyn y cwyn, categori'r cwyn a'r camau a gymerwyd.

2.4 O ran y cwynion a dderbyniwyd gan Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd, bydd Prif Weithredwr y Swyddfa'n darparu gwybodaeth i'r

Panel ynglŷn â'r cwynion cofnodadwy yn rheolaidd. Bydd y broses hefyd wedi ei hamlinellu yn y Memorandwm o Ddealltwriaeth.

3. ARGYMHELLION/DEWISIADAU

3.1 Bod y Panel yn nodi'r camau a gymerwyd i ddatrys y cwynion.

4. GWYBODAETH GEFNDIR

4.1 Mae Atodiad 1 yn rhoi rhestr o'r cwynion cofnodadwy sydd wedi eu derbyn hyd yn hyn. Isod mae disgrifiad o'r camau a gymerwyd i ddatrys y cwynion.

4.2 Cwyn 001:

4.2.1 Mae Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu wedi cwblhau ei ymchwiliadau i Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.

4.2.2 Edrychodd yr ymchwiliad ar honiad bod Winston Roddick CB QC wedi nodi ei gyfeiriad cartref yn anghywir wrth gyflwyno ffurflenni enwebu ar gyfer etholiad Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd ym mis Tachwedd 2012.

4.2.3 Canfu'r ymchwiliad nad oedd unrhyw dystiolaeth i gefnogi'r honiad yn erbyn Mr Roddick. O ganlyniad, ni chafodd ffeil yr ymchwiliad ei anfon ymlaen at Wasanaeth Erlyn y Goron. Cyhoeddodd Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu ei adroddiad ar yr ymchwiliad ar 29 Hydref 2013.

4.2.4 Mae'r mater hwn bellach wedi ei ddatrys ac ni fydd unrhyw gam pellach yn cael ei wneud gan y Panel.

4.3 Cwyn 002:

4.3.1 Mae'r gwŷn ar gyfer datrysiad lleol a bydd y Cyfarwyddwr Strategol (Democrataidd, Rheoleiddio a Chefnogaeth) yn ymgynghori gyda thri Aelod o'r Panel i benderfynu ar ffordd briodol o weithredu.

4.4 Cwyn 003:

4.4.1 Mae'r Swyddfa bellach wedi cofrestru gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, a bod y cyfnod pontio wedi ei wneud gan cofrestriadau blaenorol, a gynhaliwyd gan Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru.

4.4.2 Mater hwn yn awr yn cael ei ddatrys ac ni fydd unrhyw gam pellach yn cael ei wneud gan y Panel.

5. RHESWM/ RHESYMAU AM YR ARGYMHELLIAD/ARGYMHELLION

5.1 Rhoi gwybod i'r Aelodau am y mathau o gwynion a dderbyniwyd.

Complaints Received by the North Wales Police and Crime Panel

Complaint ID: 1	Date Compaint Received	Complaint Category	Complaint Type
	07/03/13	Commissioner	Conduct Matter

Details of Complaint

That Winston Roddick CB QC was not entitled to stand for election as the North Wales Police and Crime Commissioner because he did not qualify in accordance with appropriate legislation

Action

Referred to IPCC

Resolution

No further action to be taken by IPCC - Matter closed

Complaint ID: 2	Date Compaint Received	Complaint Category	Complaint Type
	03/03/13	Commissioner	General

Details of Complaint

That Winston Roddick CB QC had a dismissive attitude to a complaint made about the Chief Constable of the North Wales Police

Action

Referred to Panel

Resolution

Consultation to be undertaken with three Members of the PCP

Complaint ID: 3	Date Compaint Received	Complaint Category	Complaint Type
	16/07/13	Commissioner	Conduct Matter

Details of Complaint

That Winston Roddick CB QC failed to notify the ICO that he was processing personal information from the date that he took up office on 22 November 2012.

Action

Referred to IPCC

Resolution

OPCC now registered with ICO - Matter closed

PANEL HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

Y RHAGLEN WAITH I'R DYFODOL

	Dawn Hughes
	Uwch Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy Bodlondeb Conwy LL28 5NF
E-bost:	dawn.hughes@conwy.gov.uk
Ffon:	01492 576061

Dyddiad	Testun	Swyddog Cyfrifol
Dydd Llun, 11 Tach 2013	**Gweithdrefn Gwynion** Ystyried gweithdrefn gwynion briodol ar gyfer Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.	Ken Finch, Cyfarwyddwr Strategol (Democrataidd, Rheoleiddio a Chefnogi) ken.finch@conwy.gov.uk
Dydd Llun, 11 Tach 2013	**Diweddariad Cyfnodol gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd** Derbyn diweddariad ynglŷn â gwaith y Comisiynydd ers y cyfarfod diwethaf	Winston Roddick, Comisiynydd Heddlu a Throsedd
Dydd Llun, 11 Tach 2013	**Cyflwyniad gan y Prif Gwnstabl ar ddyfodol plismona yng Ngogledd Cymru**	
Dydd Llun, 16 Rhag 2013	**Praesept Bwriedig 2014/15** Ystyried y praesept bwriedig ar gyfer 2014/15 *(Caiff dyddiad y cyfarfod hwn ei osod yn derfynol yn dilyn cadarnhau'r amserlen ar gyfer sefydlu praesept 2014/15)*	Winston Roddick, Comisiynydd Heddlu a Throsedd
Dydd Llun, 16 Rhag 2013	**Cyllideb Ddraft ar gyfer y Gwasanaeth Heddlu ar gyfer 2014/15** Ystyried y gyllideb ar gyfer y Gwasanaeth Heddlu ar gyfer 2014/15	Winston Roddick, Comisiynydd Heddlu a Throsedd
Dydd Llun, 16 Rhag 2013	**Cyllideb Ddraft ar gyfer Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd ar gyfer 2014/15** Ystyried y gyllideb ddrafft ar gyfer Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd ar gyfer 2014/15.	Winston Roddick, Comisiynydd Heddlu a Throsedd

Date	Subject	Responsible Officer (including e-mail address)
Dydd Llun, 17 Maw 2014	**Cynllun yr Heddlu a Throsedd - Adolygiad Cynydd** Adolygu'r cynydd yng nghyflawniad Cynllun yr Heddlu a Throsedd: 11/09/13 - Chwarter 1 11/11/13 - Chwarter 2 17/03/14 - Chwarter 3	Winston Roddick, Comisiynydd Heddlu a Throsedd
	Eitemau i'r dyfodol	
	Gwrandawiad Cadarnhau ar gyfer Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd Adolygu'r penodiad bwriedig sydd i'w wneud gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd i swydd Dirprwy iddo.	Winston Roddick, Comisiynydd Heddlu a Throsedd
Dydd Mawrth, 4 Meh 2013	**Hyfforddi a Datblygu Aelodau** Gofynnir i Aelodau ystyried pa hyfforddiant a datblygu y byddent yn dymuno ei dderbyn. Nid yw'r rhestr ganlynol yn un gynhwysfawr, ond mae'n cynnig dewisiadau hyfforddi i'w hystyried: • Cyllid yr Heddlu, gan gynnwys gosod y praesept • Swyddogaeth Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd • Rheoli Perfformiad yr Heddlu • Gofynion Plismona Strategol • Cwynion • Partneriaethau Diogelwch Cymunedol • Cydweithredu • Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol • Penodiadau	Ken Finch, Cyfarwyddwr Strategol (Democrataidd, Rheoleiddio a Chefnogi) ken.finch@conwy.gov.uk